

PENNOD 4: YMWELYDD MAIR

Eseia 7. 14

Wele, ferch ifanc yn feichiog, a phan esgor ar fab, fe'i geilw'n Immanuel.

Y mae yna ddwy eglwys yn Nasareth sy'n hawlio mai yno y cyfarfu Mair â'r angel. Eglwys Uniongred Sant Gabriel yw un, gafodd ei chodi yn 1769 dros unig ffynnon ddŵr y dref am ganrifoedd lawer. Eglwys neu Basilica Gatholig y Cyfarchiad yw'r llall: codwyd hon rhwng 1955 a 1969 ar leoliad eglwys Fysantaidd o'r chweched ganrif, yn lle eglwys Ffransiscaidd o'r ail ganrif a'r bymtheg. Yr adeilad hardd hwn yw'r eglwys fwyaf i'w chodi yn y wlad yn ystod yr wyth ganrif ddiwethaf. Honnir iddi gael ei chodi uwchben cartref Mair.

Pwy sy'n iawn? Ni chawn help o efengyl Luc. Ni welir unrhyw broblem gan y traddodiad lleol. Aeth Mair at y ffynnon am ddŵr a chlywodd lais dyn. Fel pob merch dda cafodd ei dychryn wrth glywed dyn yn siarad â hi. Rheddodd adref ar unwaith a daeth yr angel ati yno hefyd. Ceir y traddodiad hwn mewn llyfr o'r ail ganrif, sef *Protoevangelium Iago*:²⁵ "Ac cymerodd Mair y piser a mynd allan at y ffynnon, ac wele, llais yn dweud, 'Henffych, well, tydi, yr hwn y rhoddodd Duw ei ffafr iddi. Ac edrychodd i'r dde ac i'r chwith i weld i ba le y daeth y llais. A chan crynu aeth i'w thŷ a rhoi y piser i lawer. Cymerodd ei llian porffor ac eistedd ar ei sedd a thynnu allan yr edau. Ac wele, angel yr Arglwydd safodd yn sydyn o'i blaen hi a dywedodd, 'Paid ag ofni, Mair, canys cefais ffafr gydag Arglwydd pob peth a byddi'n beichiogi ar ei Air.'" Mai Cristnogion Nasareth yn ddigon hapus gyda'r esboniad a'r esboniad apocryphaidd hwn.

Ni sonia Luc am y lle ond disgrifia'r hyn a ddigwyddodd, gan ei ddyddio yn chweched mis beichiogrwydd Elisabeth. Dywed hefyd mai Gabriel (h.y. arwr Duw) sy'n dod a chyfarfu Mair gyda'r geiriau: 'Henffych well, ti a gefais ras, yr Arglwydd sydd gyda thi; bendigedig wyt ti ymhlith gwragedd' (William Morgan, Luc 2.28) tra bod y Beibl Cymraeg 2004 yn ei chyfarfu fel "yr un y rhoddodd Duw ei ffafr iddi. Beth am y Beiblau Saesneg? Disgrifia hyn ym Meibl y Brenin Iago fel un "wedi ei huchel ffafrio. Dilynnir hyn gan y rhan fwyaf o gyfieithiadau Saesneg, ac y mae cyfieithiadau eraill yn nodi iddi gael ei chythryblu, ond sut gall un wedi'i "ffafrio gan Dduw fod felly pan nad yw hi'n cyfrif? Menyw ifanc yw, yn ddi-rym mewn cymdeithas lle rheola'r gŵyr a lle y perchir hen ddynion, ond dywed yr angel iddi beidio ag ofni. Trechir ei hofnau gan eiriau Gabriel, bod gan Dduw waith iddi ac 'y daw'r Ysbryd Glân arni', ymadrodd a ddefnyddir gan Luc wyth o weithiau yn ei ddau lyfr, gan gynnwys ei ddisgrifiad o ddyfodiad yr Ysbryd Glân ar ddydd y Pentecost.²⁶ Beth am fab Mair? – "gelwir y plentyn a genhedlir yn sanctaidd, Mab Duw." Hi sydd i genhedlu Mab Dafydd, y Meseia a addawyd. Rhaid bod y geiriau hyn yn ei gwneud yn fwy pryderus ac wedi ei drysu. Rhoddir arwydd iddi er mwyn cael y gorau ar ei hofnau: mai ei chyfnither, Elisabeth, sy'n hen a diffrywyth, yn feichiog. Adnewyddda ffydd ddofn Mair ar unwaith i wneud iddi ymateb gyda 'Dyma lawforwyn yr Arglwydd; bydded i mi yn ôl dy air."

Newidir bywyd Mair a hanes y byd am byth gan neges Gabriel. Dewisodd yr Arglwydd hi i gymeryd rôl arbennig yng nghynllun iachawdwriaeth Duw. Ni roddir iddi addewid o'r hapusrwydd yr ydym i gyd yn ei chwennych; yn hytrach gelwir hi i waith fydd iddi yn ffynhonnell bendith arbennig. Ond, rhaid i'r ferch hon yn ei harddegau fynd trwy boenau geni plentyn y tu allan i briodas, er gwarth iddi hi a'i theulu. Nid oes ganddi yr un syniad o ymateb ei theulu na Joseff ond nid oes yr un amheuaeth am ymateb y gymuned.

Caiff fendith trwy'r plentyn a genhedlir yn ei chroth. Gelwir ef *Iesu*, sef ffurf Roeg ar yr Hebraeg *Joshua*, neu yn ei ffurf lawn, *Yehoshwa*, sef *Gwardigaeth yw Duw neu Duw sy'n gwardedu*. Hefyd, 'Mab y Goruchaf y gelwir ef; rhydd Duw iddo orsedd Dafydd ei dad; ac fe deyrnasa ar dŷ Jacob am byth; ac ar ei deyrnas ni bydd diwedd.' Ei babi hi yw'r Meseia gafodd ei addo yn Ecsodus 4. 22, lle awgrymir mai Tad yw Duw am y tro cyntaf ac Israel fel ei fab: 'Dyma a ddywed yr Arglwydd: 'Israel yw fy mab cyntaf-anedig; ac yr wyf yn dweud wrthynt i ollwng fy mab yn rhydd, er mwyn iddo fy addoli...' Daw geiriau tebyg yn llyfrau'r proffwydi.²⁷ Pan sefydlwyd y frenhiniaeth Iddewig, gwelwyd y brenin yn ymgorfforiad o'r mab. Mae Salm 2.7 yn datgan, 'Fy mab wyt ti, myfi a'th genhedlodd di heddiw.'²⁸ Erbyn amser geiriau Gabriel roedd yna ddisgwyl mawr yn Israel am ddyfodiad Eneiniedig yr Arglwydd a addawyd â disgwyliad cynhyrfus yn yr awyr.

Ond un cwestiwn sydd gan Mair, Sut? Yr ateb a ddaeth oedd: "Daw'r Ysbryd Glân arnat, a bydd nerth y Goruchaf yn dy gysgodi." Ni cheir lle yn y tudalennau hyn am ddadleuon diwinyddol. Credaf y bydd geiriau y Prifathro George B. Caird yn esboniad ar Efengyl Luc (cyfres Pelican) o gymorth i bawb – gobeithiaf hynny, beth bynnag – trwy weithred creadigol yr Ysbryd Glân yr aeth Iesu i fewn i'w fabolaeth, yr un Ysbryd a fu'n gweithredu yn y Creu. Beth sy'n bwysig yn yr hanes hwn yw'r datganiad diwinyddol bod Duw wedi dod i fewn i fywyd dynolryw ym mherson Iesu Grist. Rhaid cofio hefyd mai'r hyn a gwestiynwyd yn nyddiau Luc oedd nid duwdod Iesu Grist ond ei ddyndoliaeth. Awgrym rhai am yr athrawon y sonnir amdanynt yn llyfr yr Actau 20.28-30 yw mai Docetiaid oeddent, yn gwadu dynoliaeth Iesu.

Wedyn, am yr ymadrodd "gwryf": fel arfer yn yr Hen Destament, caiff yr ymadrodd ei defnyddio i ddisgrifio cenhedloedd a dinasoedd, ac Israel yn arbennig – cenhedloedd fel yr Aifft (Jeremeia 46.11), Sidon (Eseia 23.12) a Babylon (Eseia 47.1). Defnyddir yr ymadrodd i ddisgrifio Jerwsalem/Seion (2 Brenhinoedd 19.21; Eseia 37.22 a Galarnad

Y Noson Honno: Myfyrdodau trwy'r adfent gan Thomas Ivor Rees

2.11). Sôn y mae Jeremeia 14.17 am “fy mhobl” ac yn Llyfr y Galarnad 1.15 cynrychiola Jwda. Defnyddir “gwryf” gan ddau broffwyd wrth sôn am golli purdeb y genedl a’i adfer. Felly ceir Amos 5.2 yn cyhoeddi: “Y mae’r wryf Israel wedi syrthio; ac ni chyfyd etc...” Defnyddia Jeremeia yr ymadrodd ddwywaith: ym mhennod 18.13: “Ymfynnwch ymhlith y cenhedloedd, pwy a glywodd ddim tebyg i hyn. Gwnaeth y forwyn Israel beth erchyll iawn,” ond sonia’r proffwyd am adferiad hefyd, pennod 31.04: “Adeiladaf di drachefn, yr wryf Israel, a chei dy adeiladu...” ac yn adnod 21: “dychwel wryf Israel, dychwel i’th ddinasoedd hyn.”

Duw ei hun ddewisodd Mair ar gyfer y gwaith hwn a thrwy’r gwaith y bydd hi’n cael ffafwr gyda Duw. Caiff ei hatgoffa, “ni bydd dim yn amhosibl gyda Duw.” A digon yw hynny iddi hi. Er bod rhaid iddi, fel Abraham, tad ei phobl, fynd ymlaen “heb wybod i ble’r oedd yn mynd.”²⁹ Bu pen Mair yn llawn cynlluniau am ei phriodas, a Joseff hefyd a chynlluniau ganddo, ond heriwyd y ddau gan gynlluniau Duw ar eu cyfer hwy ill dau a’r byd trwyddynt. Dyna beth sy’n wir amdanom ni oll hefyd. Ymateb llawn sydd ganddi, fel eiddo Joseff, “Dyma llawforwyn yr Arglwydd; bydded i mi yn ôl dy air di.”

Arglwydd Dduw, gelwaist Fair i fod yn law-forwyn i ti, gan roi iddi ras i fod yn gludwraig y Crist Blentyn. Dyro i ni yr un ras, fel ein bod, yn ein tro, yn dod yn gludwyr y Crist i bob cornel o’n bywyd.

Cwestiynau i’w hystyried neu i’w trafod

Beth mae cael “ffafwr yr Arglwydd” yn ei olygu i ni?

Llawenydd sydd gan Mair wrth iddi gael rhan yn y digwyddiad sy’n datgan dyfodiad Teyrnas Dduw. Golyga dweud GWNAF mewn ffydd i alwad Duw iddi ddod yn fam Iesu. Sut ydym ni i ddweud GWNAF?

Darllenwch y *Magnificat*. Mae Mair yn canu am fyd yn cael ei droi wyneb i waered. Beth yw goblygiadau ymarferol hynny?

Daw cân Mair o ddyfnder hiraeth a gobaith ei phobl gan roi ateb iddi hi yr un pryd. A ydyw’n gwneud hynny i ni?